

## **Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2021

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

15 Rhagfyr 2021

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2021 (“y Rheoliadau Diwygio”) yn diwygio Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”).

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

### **3. Cefndir Deddfwriaethol**

3.1 Gwnaed Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 o dan adrannau 19(2), (3) ac (8), 20(2), (3) a (4A), 34(5), 35(4) a (5), 36(4) a (5), 210(7), a 214 o Ddeddf Addysg 2002, a daethant i rym ar 22 Mai 2014.

3.2 Gosododd Rheoliadau 2014 broses y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol ei dilyn er mwyn ffedereiddio, dadffedereiddio neu ddiddymu ffederasiwn, nodi cyfansoddiad ac aelodaeth corff llywodraethu ffederal, gosod cap ar nifer yr ysgolion a gaiff ffedereiddio ac yn gosod fframwaith llywodraethu y gall cyrrff llywodraethu ffederal weithredu a chynnal eu busnes o'i fewn.

3.3 Mae Rheoliad 15(3) yn darparu meini prawf ar gyfer anghymwysu athro-lywodraethwyr:

(a) os etholwyd y person hwnnw yn flaenorol yn athro-lywodraethwr ar yr un corff llywodraethu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf or

(b) os cyflogir y person hwnnw i weithio yn yr un ysgol ffederal ag unrhyw berson a etholwyd yn athro-lywodraethwr ar y corff llywodraethu hwnnw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

3.4 Mae Rheoliad 16 yn darparu'r un meini prawf ar gyfer staff-lywodraethwyr.

3.5 Mae'r meini prawf hyn yn creu anghysondeb i gyrff llywodraethu ffederal dwy ysgol ac yn ei gwneud yn ddiangen o anodd cydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiadol a chael cynrychiolaeth iawn o bob ysgol ar y corff llywodraethu.

3.6 Gwneir y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae'r Rheoliadau Diwygio yn darparu cafeat yn rheoliad 15 a 16 i'r perwyl nad yw is-baragraffau (a) a (b) uchod yn gymwys i ffederasiynau sy'n cynnwys dwy ysgol.

4.2 Gwneir y gwaith diwygio i ganiatáu i gyrff llywodraethu ffederal benodi athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr o'r un ysgol â'r llywodraethwr sy'n ymadael. Mae'n ei gwneud yn haws cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn caniatáu i bob ysgol ar draws y ffederasiwn gael cynrychiolaeth iawn.

4.3 Nid effeithir ar weddill y gofynion a nodir yn Rheoliadau 2014, fel y'u diwygiwyd.

## **5. Ymgynghori**

5.1 Gan fod y Rheoliadau Diwygio yn cywiro anghysondeb technegol yn y Rheoliadau, ac mai'r bwriad yw gwneud i'r Rheoliadau gyfateb i'r bwriad polisi sydd eisoes yn bodoli, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Nid oes costau nac arbedion o ganlyniad i'r gwaith diwygio hwn, ac nid oes newid i'r bwriad polisi o wneud y Rheoliadau hyn, felly, nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau. Ni ragwelir effaith ar fusnes, elusennau na chyrff gwirfoddol.

6.2 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â gwneud Rheoliadau Diwygio 2021.

### *Yr Iaith Gymraeg*

6.3 Nid oes effeithiau cadarnhaol na niweidiol yn benodol i'r Iaith Gymraeg.

### *Hawliau Plant*

6.4 Nid oes effeithiau cadarnhaol na niweidiol yn benodol i Hawliau Plant.

### *Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*

6.5 Nid oes effeithiau cadarnhaol na niweidiol yn benodol i Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### *Preifatrwydd*

6.6 Nid effeithir ar ddarpariaethau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 gan y gwaith diwygio i'r Rheoliadau hyn.

### *Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder*

6.7 Er nad oes Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi cael ei wneud, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Rheoliadau hyn.